## Y Bywyd

'Y ffordd a'r gwirionedd a'r bywyd'. Dyna oedd Crist, meddai Ef amdano'i hun. Y tro hwn yr ydym wedi cyrraedd yr olaf o'r termau hyn: bywyd. 'Myfi yw'r bywyd'. Beth ydyw synnwyr dweud peth felly?

Nid sôn am fywyd y corff y mae yn gymaint ag am fywyd yr ysbryd. Wrth gael eu torri i ffwrdd oddi wrth Dduw drwy eu gwrthryfel (fel yr oeddem yn sôn wrth feddwl am Grist fel y ffordd), y mae dynion wedi colli bywyd yr ysbryd. O ran eu hysbrydoedd y maent yn farw. Nid yw marwolaeth y corff ond fel petai'n amlygu marwolaeth yr ysbryd. Ond un o'r pethau pwysicaf ynglŷn â Duw ydyw ei fod yn fyw, ac y mae'r un peth yn wir am Fab Duw, Iesu Grist. Yn wir, y mae Ioan yn dweud amdano fod ganddo yntau, fel ei Dad, fywyd ynddo'i hun a'i fod yn gallu rhoi bywyd i'r sawl a fyn. Pan fu Crist farw drosom, nid oedd modd i farwolaeth ei gadw'n gaeth ac ymhen tridiau yr oedd wedi codi'n fyw o'i fedd. A'r un modd fe all roi ei fywyd ei hun i bob un ohonom, ein gwaredu ni bob un o'r farwolaeth ysbrydol y'n ganwyd iddi.

'Sut y gall peth felly ddigwydd?' meddech. Fe all ddigwydd – fe wna ddigwydd – pan fyddwn yn gwrando ar eiriau Crist ac yn eu credu. 'Y mae'r sawl sy'n gwrando ar fy ngair i ac yn credu'r hwn a'm hanfonodd i yn meddu ar fywyd tragwyddol.' Bywyd ydyw hwn nad yw marwolaeth y corff yn mennu dim arno, bywyd sy'n cael ei nodweddu – neu a ddylai gael ei nodweddu – gan gariad a chan lawenydd. Yr wyf yn dweud 'a ddylai gael ei nodweddu' oherwydd fy mod yn ymwybodol iawn mor ddiffygiol ydyw'r gorau o ddilynwyr Crist wrth ddangos a mynegi'r bywyd hwnnw. Ond nid yw'r diffyg yn newid dim ar y ffaith fod y bywyd yn eu meddiant.

'Myfi yw'r ffordd a'r gwirionedd a'r bywyd.' 'Hwn yw fy Mab, yr Anwylyd; gwrandewch arno.' Nid rhyw eiriau diystyr o gyfnod pell yn ôl ydyw'r rhai yma. Y maent mor llawn o rym heddiw ag a fuont erioed, dim ond i ni roi cyfle iddynt. Y peth hanfodol ydyw ein bod ni, fel Mair, yn fodlon eistedd wrth draed Crist a chymryd ein dysgu ganddo, gwrando ar ei eiriau. Os gwnawn hynny, y mae gobaith i ni. Heb hynny, nid oes dim gobaith. Ganddo Ef y mae geiriau'r bywyd tragwyddol, a chan neb arall, heddiw fel erioed.

***Dr R. Geraint Gruffydd***